**CABINET CYNGOR GWYNEDD**
**COFNODION**
**15 Medi 2015**

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.
Cyng. Dilwyn Morgan – presennol ar gyfer Eitemau 1 a 2.

**Hefyd yn bresennol** –
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Prif Swyddog Cyllid), Arwyn Thomas (Pennaeth Adran Addysg), Hedd Tomos (Rheolwr Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion), Anthony Williams (Swyddog Perfformiad), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Rhion Glyn (Uwch Swyddog Gweithredol), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

## 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Aelodau Lleol canlynol ar gyfer Eitem 6 –
Elwyn Edwards
Alan Jones Evans.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fuddiant personol yn Eitem 6 ar y rhaglen (Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Ysgol y Berwyn), oherwydd bod ei Ŵyr yn ddisgybl yn Ysgol Bro Tegid.

Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2015.

## 6. DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH YSGOL Y BERWYN – PENDERFYNIAD YN DILYN GWRTHWYNEBU RHYBUDD STATUDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

1. Gweithredu ar y cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn, yn nhref Y Bala ar 31 Awst 2018 a sefydlu Campws Dysgu 3-19, Cyfrwng Cymraeg1, Gwirfoddol a Reolir, (VC, Eglwys yng Nghymru), ("Y Campws"), ar safle presennol Ysgol Y Berwyn i agor ar 1 Medi 2018.

2. Bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal adolygiad o berfformiad yr ysgol fydd yn cynnwys ansawdd yr addysg a ddarperir, cynnydd addysgol, profiadau diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion, y defnydd o adnoddau, ac unrhyw effaith y categori Gwirfoddol a Reolir, (VC, Eglwys yng Nghymru), ar yr uchod wedi dwy flynedd o ddyddiad agor y Campws. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori gyda rhieni, darpar-rieni a thrigolion yr ardal er mwyn dod i farn ar briodoldeb yr addysg a'r statws eglwysig.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2014/15

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.
Eiliwyd gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Argymell i'r Cyngor Llawn eu bod yn mabwysiadu adroddiad perfformiad Cyngor Gwynedd 2014/15

## 8. YMDDIRIEDOLAETH YSGOL LLANEGRYN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.
Eiliwyd gan y Cyng. W Gareth Roberts.

**PENDERFYNIAD**

1. Gweithredu fel Ymddiriedolwyr Ysgol Rydd Llanegryn, gan gymeradwyo penderfyniad i wneud cais i'r Comisiwn Elusennau er mwyn newid amcanion Ymddiriedolaeth Ysgol Rydd Llanegryn, a galluogi'r Cyngor i werthu'r safle.

2. Gwyro oddi wrth y Rheolau Gweithdrefn Ariannol arferol a defnyddio'r cyfan o'r derbyniad cyfalaf a ddaw o waredu hen Ysgol Rydd Llanegryn ar wariant yn y dyfodol er mwyn parhau i hyrwyddo pwrpas yr Ymddiriedolaeth.

## 9. YMGYNGHORIAD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.
Eiliwyd gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

**PENDERFYNIAD**

1. Mae'r Cabinet yn nodi, ar y cyfan, mai Opsiwn 4 yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod fyddai'n cael y lleiaf o effaith o ran mynediad trigolion Gwynedd at wasanaeth.

2. Mae'r Cabinet yn hyderus y bydd y penderfyniad clinigol gorau yn cael ei wneud gan y Bwrdd Iechyd i ddatrys y pryderon cyfredol, ond rydym fel Cyngor yn awyddus i sicrhau datrysiad mwy lleol yn yr hir dymor.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 2.15pm.

______________________________

**CADEIRYDD**